


## Fersiwn Hawdd ei Ddarllen o'r

# Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014






Mae'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn esbonio'r Ddeddf.

Nid yw'r ddogfen hawdd ei darllen hon yn gyfraith.



Rhaid i chi darllen y Ddeddf er mwyn gwybod beth mae'r gyfraith yn dweud.





# Cynnwys





**Pam mae angen y Ddeddf arnon ni** **5**




**Syniadau a geiriau pwysig** **7**




**Sut i ddefnyddio'r esboniad hawdd ei ddarllen hwn** **18**



**Rhan 1 Cyflwyniad** **20**




**Rhan 2 Rheolau cyffredinol** **22**



**Rhan 3 Asesiadau** **32**



**Rhan 4 Cwrdd ag anghenion pobl** **37**




**Rhan 5 Codi tâl ar bobl am wasanaethau** **43**



**Rhan 6 Pan fydd y cyngor lleol yn edrych ar ôl plant a phobl ifanc** **45**




**Rhan 7 Cadw pobl yn ddiogel** **60**



**Rhan 8 Y Gwasanaethau Cymdeithasol** **68**



**Rhan 9 Gweithio gyda'n gilydd** **72**




**Rhan 10 Cwynion** **76**



**Rhan 11 Darnau ychwanegol** **80**




# Pam mae angen y Ddeddf arnon ni



- Mae angen gofal a chefnogaeth ar fwy o bobl.



- Mae pobl eisiau mwy gan wasanaethau cyhoeddus. Maen nhw eisiau rhoi eu barn. Maen nhw eisiau mwy o reolaeth.



- Nid yw gofal cymdeithasol bob amser yn helpu pobl i fod yn annibynnol.



- Nid oes digon o arian.



- Mae'r rheolau a'r gwaith papur yn rhy anodd.




Bydd y Ddeddf hon yn:



- gwneud bywyd yn well i bobl a'u gofalwyr,




- gwneud cyfraith gofal cymdeithasol yn haws ei defnyddio,



- rhoi llais cryfach a mwy o reolaeth i bobl,



- gwneud yn siŵr bod pobl yn cael yr help sydd angen arnyn nhw i gael bywyd da,




- dweud sut bydd y gwasanaethau cymdeithasol dros Gymru i gyd,



- gwneud yn siŵr bod cymunedau yn cael cyfle i gynnig eu gwybodaeth a'u profiad.



# Syniadau a geiriau pwysig




Mae'r adran hon yn dweud wrthoch chi beth mae'r geiriau anodd a'r syniadau newydd yn meddwl.




Pan fyddwch chi'n darllen y ddogfen hon, byddwch chi'n gweld bod y geiriau hyn mewn print **bras** bob tro.




**Asesiad**




Mae asesiad yn ffordd o gael gwybod pa help sydd ei angen ar rywun. Nid yw'r Ddeddf yn dweud sut bydd yr **asesiad** yn cael ei wneud. Bydd y rheolau ar gyfer **asesiadau** yn y **rheoliadau**.



## Meini prawf cymhwystra




Dyma'r rheolau am bwy sy'n cael help gan wasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol. Nid yw'r Ddeddf yn dweud beth fydd yn meini prawf cymhwystra. Bydd y meini prawf cymhwystra yn cael eu hysgrifennu yn y **Rheoliadau**.



## Asesiad ariannol




Mae'n rhaid i bobl gael **asesiad ariannol** os ydyn nhw eisiau help o'r Gwasanaethau Cymdeithasol. Os ydyn nhw'n gwrthod cael **asesiad ariannol,** mae'n rhaid iddyn nhw dalu am wasanaethau.



Mae'r **asesiad ariannol** i gael gwybod:

- faint o incwm sydd gan rywun,
- faint o gynilon sydd gan rywun,
- pa eiddo mae rhywun yn berchen arno.




Yna bydd yr awdurdod lleol yn gweithio allan faint o arian mae'n rhaid i'r person dalu.



**Preswylio fel arfer**



**Mae preswylio fel arfer** yn meddwl

- lle mae rhywun yn byw fel arfer, neu
- lle byddai rhywun yn byw os nad oedd angen gofal a chefnogaeth arnyn nhw,
- lle mae rhywun, os ydyn nhw'n ddigartref.




Mae'n rhaid i'r awdurdod lleol lle mae rhywun yn **preswylio fel arfer** wneud beth mae'r Ddeddf hon yn dweud.

**Gwasanaethau ataliol**

Mae **gwasanaeth ataliol** yn golygu:



- os yw gwasanaethau yn **ataliol**: gall pobl ymdopi yn hirach cyn bod angen gofal a chefnogaeth arnyn nhw,



- mae angen llai o ofal a chefnogaeth ar rywun,



- mae bywyd yn haws i deuluoedd,



- mae bywyd yn haws i bobl anabl,



- llai o gam-drin ac esgeulustod,



- llai o blant yn mynd i mewn i ofal,




- llai o blant yn mynd i drafferth gyda'r gyfraith,




- mae pobl yn byw mor annibynnol â phosib.



**Hyrwyddo**

Mae hyrwyddo yn golygu:



- dweud bod rhywbeth yn dda,



- dweud wrth bobl am rywbeth,
- cael pobl i ddefnyddio'r peth yr ydych yn ei hyrwyddo,




- ceisio cael mwy o bobl i gynnig gwasanaeth neu wneud rhywbeth yr ydych chi'n credu sy'n dda.




**Rheoliadau**




Mae'r **Rheoliadau** yn rhoi'r holl reolau manwl nad ydyn nhw yn y Ddeddf.



Mae'n rhaid i bobl wneud beth mae'r **rheoliadau** yn dweud.




Ysgrifennwyd y Fersiwn Hawdd ei Darllen hon cyn ysgrifennu'r **rheoliadau**.



Ar ôl iddyn nhw gael eu hysgrifennu, gall bawb ddweud beth maen nhw'n feddwl am y **rheoliadau** drafft. Bydd Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn pleidleisio ar y **rheoliadau.**





O Ebrill 2016 mae'n rhaid i bawb wneud beth mae'r **rheoliadau** a'r Ddeddf yn dweud.



**Partner perthnasol**




Mae rhan o'r Ddeddf am gynghorau lleol a'u **partneriaid perthnasol.**



Dyma restr o'r **partneriaid perthnasol:**




- heddlu lleol,




- cynghorau lleol sy'n cytuno i weithio gyda nhw,



- Ysgrifennydd Gwladol Cymru,



- Y Gwasanaeth Prawf,
- GIG (NHS),



- Gweinidogion Cymru.

**Llety diogel**



Weithiau mae pobl ifanc yn byw mewn **llety diogel** oherwydd eu lles ac i fod yn ddiogel, neu os yw'r llysoedd wedi eu rhoi nhw yno. Dydyn nhw ddim yn gallu gadael y llety hwn tan i'r cynghorau ddweud eu bod nhw'n gallu gadael.



Mae **llety diogel** yn rhoi lle i fyw, gofal iechyd a gwasanaethau addysg.



## Llesiant




Yn y Ddeddf hon, mae **llesiant** yn golygu:




- rydych chi'n iach.



- rydych chi'n teimlo'n dda am eich bywyd. Rydych yn ddiogel.



- gallwch chi ddysgu pethau newydd.

I blant, mae **llesiant** hefyd yn cynnwys:




- gallu tyfu i fyny yn hapus.

- bod rhywun yn edrych ar eich ôl yn dda.



I oedolion mae **llesiant** hefyd yn cynnwys:




- rheolaeth dros fywyd bob dydd.





- gallu gweithio.




# Sut i ddefnyddio'r esboniad Hawdd ei Ddarllen hwn




Mae 11 Rhan yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru). Mae 200 o adrannau yn y Ddeddf. Mae rhif i bob adran.




Mae rhifau mewn cromfachau yn y penawdau yn y fersiwn Hawdd ei Darllen fel hyn: **Hyrwyddo llesiant (5)**. Mae hyn yn golygu y mae'n rhaid i chi fynd i adran 5 y Ddeddf i weld beth mae'r Ddeddf yn dweud.




Mae 3 rhestr yng nghefn y Ddeddf. Yr enw ar y rhestri yw Atodlenni. Nid ydyn nhw yn y fersiwn Hawdd ei Darllen hon.



- Mae Atodlen 1 am godi tâl ar rieni os yw'r cyngor lleol yn edrych ar ôl eu plentyn.




- Mae Atodlen 2 am yr holl ddeddfau sy'n dweud wrth y Gwasanaethau Cymdeithasol beth mae'n rhaid iddyn nhw wneud.



- Mae Atodlen 3 am newid i gyfraith arall. Mae'r newid yn meddwl y gall yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus edrych ar gwynion am gartrefi gofal preifat a gofal i bobl sy'n marw.




Mae'r fersiwn Hawdd ei Darllen hon yn hir. Rydyn ni'n awgrymu eich bod chi'n darllen y **Cyflwyniad** a **Rhan 2**.



Yna gallwch chi ddarllen dim ond y Rhannau sy'n bwysig i chi.



# Rhan 1

# Cyflwyniad




Dyma rai pethau pwysig y bydd y Ddeddf yn gwneud:



- gwella **llesiant** i bobl sydd angen gofal a cefnogaeth, a gofalwyr sydd angen cefnogaeth.




- gwneud yn siŵr bod **gwasanaethau ataliol** a gwasanaethau gwybodaeth.




- cadw plant ac oedolion yn ddiogel.




- gwneud i sefydliadau weithio gyda'i gilydd.



- gadael i Weinidogion Cymru wneud rhywbeth os yw gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud yn wael.




- gadael i bobl gwyno am wasanaethau gofal a chefnogaeth preifat a gwasanaethau sy'n gofalu am bobl sy'n marw.



- gwneud gofal cymdeithasol yn well.



Mae'r Ddeddf yn gadael i bobl roi eu barn yn fwy, ac yn rhoi mwy o reolaeth iddyn nhw.




Mae'r Ddeddf yn rhoi mwy o hawliau i ofalwyr.




# Rhan 2

# Rheolau cyffredinol




**Hyrwyddo llesiant (5)**



Mae popeth yn y  Ddeddf hon am **hyrwyddo llesiant**:



- pobl sydd angen gofal a chefnogaeth.



- gofalwyr sydd angen cefnogaeth.




**Egwyddorion (6, 7)**



Mae egwyddorion yn ffyrdd o feddwl a gwneud pethau.




Egwyddorion y Ddeddf yw:



- talu sylw i beth mae pobl ei eisiau.



- cofio am urddas pobl.



- meddwl am bob person. Meddwl am eu diwylliant, cred ac iaith.



- cefnogi pobl i fod yn rhan o benderfyniadau am eu bywyd.



- disgwyl i oedolion wybod beth sydd orau iddyn nhw.



- cefnogi oedolion i fod mor annibynnol â phosib.



- helpu plant i dyfu i fyny yn eu teulu eu hunain, os yn bosib.



- gwrando ar beth mae rhieni plant eisiau, os yw'n ddiogel ac yn bosib.



- cofio
    - Egwyddorion Pobl Hŷn y Cenhedloedd Unedig.
    - Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.




**Datganiad llesiant (8)**



Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ysgrifennu Datganiad Llesiant.

Mae hyn yn dweud:

- beth yw llesiant.
- sut i fesur os yw llesiant pobl yn gwella.



**Cod Ymarfer (9-12)**



Bydd Gweinidogion Cymru yn ysgrifennu Cod. Bydd cyfle gyda phawb i ddweud beth maen nhw'n feddwl am y Cod.




Bydd y Cod yn dweud sut bydd y gwasanaethau.



**Cynghorau lleol a Byrddau Iechyd Lleol (14)**

Mae'n rhaid i gynghorau lleol a'r Byrddau Iechyd lleol yn eu hardal weithio gyda'i gilydd i gael gwybod:







- faint o bobl sydd angen gofal a chefnogaeth,
- faint o ofalwyr sydd angen cefnogaeth,
- faint o bobl sydd ddim yn cael yr help sydd angen arnyn nhw,
- pa wasanaethau sydd angen yn lleol, yn cynnwys **gwasanaethau ataliol.**




Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod y gwasanaethau sydd angen ar bobl gyda nhw.




Mae'n rhaid iddyn nhw wneud yn siŵr bod pobl sy'n siarad Cymraeg yn gallu cael help yn Gymraeg.



**Gwasanaethau ataliol (15)**




Mae'n rhaid i gynghorau lleol gael gwybod am unrhyw **wasanaethau ataliol** lleol.



Mae'n rhaid iddyn nhw feddwl am ba **wasanaethau ataliol** eraill sydd angen.



Gall cynghorau lleol weithio gyda'i gilydd i ddarparu **gwasanaethau ataliol.**



**Mathau newydd o wasanaethau (16)**



Mae'n rhaid i gynghorau lleol **hyrwyddo** gwasanaethau fel rhain:



- busnesau sy'n cael eu rhedeg gan bobl sydd ddim yn cadw elw iddyn nhw eu hunain.



- sefydliadau lle mae pawb yn gyfartal.



- gwasanaethau sy'n cynnwys pobl mewn creu a rhedeg y gwasanaethau.




- gwasanaethau sy'n cael eu rhedeg gan sefydliadau fel elusennau a sefydliadau gwirfoddol.

**Gwasanaeth gwybodaeth (17)**




Mae'n rhaid i gynghorau lleol roi gwasanaeth newydd. Hwn yw'r gwasanaeth Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth, neu GCC.

Mae'n rhaid i'r gwasanaeth:




- roi digon o wybodaeth i bobl i wneud cynlluniau,




- cael gwybodaeth sy'n hawdd ei deal,




- dweud wrth bobl am help a gwasanaethau lleol,



- dweud wrth bobl beth i'w wneud os ydyn nhw'n pryderu am **lesiant** rhywun. Dweud sut i ddweud am bryderon am lesiant rhywun.




**Rhestri'r cyngor lleol (18)**

Mae'n rhaid i gynghorau lleol gadw rhestri o:



- bobl â nam ar y golwg neu'r clyw,



- pobl anabl,



- pobl efallai bydd angen gofal a chefnogaeth yn y dyfodol.




Mae'n rhaid i'r rhestr ddweud pa iaith maen nhw'n ei defnyddio.



Gall cynghorau lleol ddefnyddio'r rhestri i gynllunio pa wasanaethau fydd angen a gweld os bydd nifer y bobl yn newid.



Gall bobl ddewis a ydyn nhw eisiau bod ar y rhestr.

# Rhan 3



# Asesiadau

**Pwy sy'n gallu cael asesiad? (19 - 27)**




Mae'n rhaid i'r cyngor lleol wneud **asesiad** os ydyn nhw'n gwybod neu'n meddwl bod angen gofal a chefnogaeth ar rywun, neu bod angen cefnogaeth ar ofalwr.



Mae dau fath o **asesiad**. Mae'r cyntaf i weld a oes anghenion gofal a chefnogaeth gan berson. Mae'r ail i weithio allan a ydyn nhw'n cwrdd â'r **meini prawf cymhwystra** i gael help gan y gwasanaethau cymdeithasol.



Gallwch chi ddweud nad ydych chi eisiau cael **asesiad**



Gall y cyngor lleol wneud i rywun gael **asesiad** os:



- nid yw'r person yn deall digon i wneud penderfyniad,



- efallai bod y person mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod,



- maen nhw'n meddwl bod angen un ar y person,



- mae'r rhiant wedi gwrthod ond mae'r plentyn wedi dweud ei fod eisiau cael **asesiad.**

***Oedolion***



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol:

- gael gwybod beth mae'r oedolyn eisiau yn ei fywyd bob dydd,
- gweithio allan beth fydd yn helpu'r oedolyn i wneud beth maen nhw eisiau gwneud.





Mae'n rhaid i'r oedolyn, ac os yn bosib ei ofalwr, gael dweud ei farn yn yr asesiad.

***Plant***



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol:

- gael gwybod am y plentyn.
- cael gwybod beth mae'r plentyn ei eisiau (os yn bosib).
- cael gwybod beth mae rhieni'r plentyn ei eisiau (os yw hynny'n ddiogel).
- cael gwybod beth fydd yn helpu.



Dylai pob plentyn anabl gael **asesiad**.



***Gofalwyr***



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol:

- gael gwybod pa ofal mae'r person eisiau rhoi,
- cael gwybod beth mae'r gofalwr am gael yn ei fywyd ei hunan,
- gweithio allan beth fyddai'n helpu.



Mae'n rhaid i'r **asesiad** edrych ar:

- y gwaith mae'r gofalwr yn gwneud neu eisiau gwneud,
- unrhyw weithgareddau dysgu neu hamdden mae'r gofalwr yn gwneud neu eisiau gwneud.



I ofalwr ifanc, mae'n rhaid i'r **asesiad** hefyd edrych ar hawl y plentyn i fod yn blentyn.



**Cael mwy nag 1 asesiad (28 - 29)**



Gall gofalwr a'r person y mae'n gofalu amdanyn nhw gael **asesiad** ar yr un pryd, os yw'r ddau berson yn hapus gyda hynny.




Weithiau mae angen mwy nag 1 **asesiad** ar bobl. Gall yr **asesiadau** gael eu gwneud ar yr un pryd.

# Rhan 4



## Cwrdd ag anghenion pobl

**Pwy sy'n cael help? (32, 35-45)**



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol wirio asesiad person yn erbyn y **meini prawf cymhwystra.** Bydd y **meini prawf cymhwystra** yn y **rheoliadau**.



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol wirio hefyd a yw'r person mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod.



Mae'n rhaid i gynghorau lleol helpu oedolion sy'n cwrdd â'r **meini prawf cymhwystra** neu sydd mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod.



Mae'n rhaid i gynghorau lleol helpu plant sy'n cwrdd â'r **meini prawf cymhwystra** neu sydd mewn perygl o gam-drin, esgeulustod neu niwed arall, oni bai bod anghenion y plentyn yn cael eu cwrdd gan ei deulu.



Gall cynghorau lleol helpu gofalwyr trwy roi gwasanaeth i'r person maen nhw'n gofalu amdano. Gall cynghorau lleol wneud hyn hyd yn oed os nad yw'r person maen nhw'n gofalu amdano yn cwrdd â'r **meini prawf cymhwystra.**




Mae gofalwyr yn cael help gan y cyngor lleol yn yr ardal lle mae'r person y maen nhw'n gofalu amdanyn nhw'n byw. Does dim ots os yw'r gofalwr yn byw mewn ardal arall.




Gall cynghorau lleol helpu pobl eraill hefyd.



**Rhoi gwasanaethau (34)**

I bobl sy'n cwrdd â'r **meini prawf cymhwyster**, mae'n rhaid i'r cyngor lleol weithio allan:

- sut i gwrdd â'u hanghenion,
- a ydyn nhw'n mynd i godi tâl am wasanaethau.



Mae'n rhaid i ymweliadau gofal cartref fod yn ddigon hir i gwrdd ag anghenion y person.




**Taliadau uniongyrchol (50-53)**




Bydd **rheoliadau** newydd i Daliadau Uniongyrchol, yn cynnwys:



- sut i weithio allan faint o arian i roi i'r person,
- rheolau am dalu'r arian i'r person,








- rheolau y gall cyngor lleol wneud a rhai na allan nhw wneud pan maen nhw'n rhoi Taliadau Uniongyrchol i rywun,

- cefnogaeth i bobl sy'n cael Taliadau Uniongyrchol,

- stopio Taliadau Uniongyrchol rhywun,

- rhoi digon o wybodaeth i bobl i wneud dewis am Daliadau Uniongyrchol.




**Cynlluniau (54-55)**

Os yw rhywun yn cwrdd â'r **meini prawf cymhwystra**, mae'n rhaid i'r cyngor lleol ysgrifennu cynllun.




Bydd pobl ag anghenion gofal a chefnogaeth yn cael cynllun gofal a chefnogaeth. Bydd gofalwyr yn cael cynllun cefnogaeth.




Bydd **rheoliadau** am:

- baratoi cynllun, yn cynnwys pwy sy'n cael rhoi barn,
- beth i'w roi mewn cynllun,
- gwirio a newid cynlluniau,



**Symud tŷ (56)**




Os bydd rhywun yn symud tŷ, mae'n rhaid i'w gyngor lleol ddweud wrth y cyngor lleol newydd ac anfon:

- copi o'r cynllun gofal a chefnogaeth,
- gwybodaeth arall y mae'r cyngor newydd yn gofyn amdani,



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol newydd ddechrau ei **asesiad** ei hun o beth fydd angen ar y person.



Tan i'r **asesiad** hynny orffen, mae'n rhaid i'r cyngor lleol newydd roi beth sydd yn hen gynllun gofal a chefnogaeth y person, os gallan nhw. Nid yw'r rheol yma yn berthnasol i ofalwyr.



**Dewis ble i fyw (57)**



Weithiau mae person eisiau aros rhywle sy'n costio mwy na mae'r cyngor lleol yn disgwyl talu. Gall y cyngor lleol ofyn i'r person dalu'r gost ychwanegol.

**Diogelu eiddo pobl (58)**



Os bydd rhywun yn mynd i mewn i'r ysbyty neu gartref gofal, mae'n rhaid i'r cyngor lleol wneud beth allan nhw i stopio'u pethau rhag cael eu colli neu eu difrodi.



# Rhan 5
# Codi tâl ar bobl am wasanaethau




**Codi tâl (59)**

Gall cynghorau lleol ofyn i bobl dalu tuag at eu gofal a'u cefnogaeth.



Ni fydd plant yn gorfod talu am wasanaethau. Efallai bydd eu rhieni yn gorfod talu.






Bydd **rheoliadau** am:

- bwy sy'n gorfod talu,
- y swm uchaf gall cyngor lleol ei godi,
- pan na fydd cyngor lleol yn gallu codi tâl.

## Asesiad ariannol (60-73)



Bydd **rheoliadau** am sut i weithio allan faint y dylai person dalu ac os bydd person yn gallu fforddio talu.



Rhaid i gynghorau lleol gael gwybod faint o arian mae rhywun yn cael a faint o gynilon sydd gyda nhw.



Rhaid i'r cyngor lleol ysgrifennu at y person yn dweud faint maen nhw wedi penderfynu y dylai'r person dalu. Bydd rhai pobl yn talu dim os nad ydyn nhw'n gallu fforddio talu.



Weithiau bydd pobl eisiau talu yn hwyrach. Er enghraifft, efallai y byddan nhw am aros tan bod eu tŷ wedi'i werthu. Bydd **rheoliadau** am hyn.



Gall y cyngor lleol fynd â rhywun i'r llys os nad ydyn nhw'n talu.



# Rhan 6

# Pan fydd y cyngor lleol yn edrych ar ôl plant a phobl ifanc




**Cyffredinol (74-77)**

Mae'n rhaid i gynghorau lleol:



- gael y llety lleol iawn i'r plant y maen nhw'n edrych ar eu hôl.



- edrych ar ôl plant pan nad oes oedolyn gyda nhw i edrych ar eu hôl.




- edrych ar ôl plant sy'n cael eu diogelu gan yr heddlu.



- edrych ar ôl plant os mae llys wedi dweud bod rhaid i'r cyngor lleol edrych ar eu hôl




**Dyletswydd y cyngor lleol (78-81)**



Pan fydd y cyngor lleol yn edrych ar ôl plentyn, mae'n rhaid iddynt:




- gadw'r plentyn yn ddiogel.



- **hyrwyddo llesiant** y plentyn.





- helpu'r plentyn i wneud yn dda yn yr ysgol.



- gwirio a oes anghenion gofal a chefnogaeth gyda'r plentyn.

- gwrando ar eraill sy'n adnabod y plentyn.



- meddwl am grefydd, cefndir ac iaith y plenty.



- ceisio cael cartref i'r plentyn gydag un o'i deulu.



- edrych am y lle gorau i'r plentyn yna fyw.

Dylai plant fyw:




- yn agos at eu cartref, os yw'n ddiogel.

- lle y gallan nhw gario ymlaen gydag ysgol neu hyfforddiant.




- gydag unrhyw frodyr neu chwiorydd.
- gyda rhywun addas iddyn nhw.




Mae'n rhaid i'r plentyn allu byw yn ei ardal cyngor lleol ei hunan, os yw'n ddiogel.




Mae'n rhaid i'r cyngor lleol roi'r plentyn gyda theulu mabwysiadu addas, neu un o'i deulu neu ffrind sy'n gallu rhoi cartref i'r plentyn.




## Cynllun y plentyn (83-84)



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol edrych ar achos y plentyn cyn newid lle mae'r plentyn yn byw, oni bai bod argyfwng neu fod angen iddyn nhw gadw'r plentyn yn ddiogel.




Mae angen cynllun gofal a chefnogaeth ar bob plentyn pan fydd y cyngor lleol yn edrych ar eu hôl.









Bydd **rheoliadau** am:

- beth i'w wneud os bydd angen i'r plentyn fyw y tu allan i ardal y cyngor lleol.
- pan fydd plentyn mae'r cyngor yn edrych ar ei ôl yn cael byw gyda'i rieni.
- sut mae rhywun yn dod yn ofalwr maeth y cyngor lleol.



**Aros mewn cysylltiad gyda theulu a ffrindiau (95-96)**



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol ei wneud yn hawdd i blentyn aros mewn cysylltiad a'i rieni, teulu a ffrindiau.



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol wneud yn siŵr bod rhieni'n gwybod lle mae eu plentyn yn byw, os yw'n ddiogel.



Mae'n rhaid i rieni a phobl â chyfrifoldeb rhiant ddweud wrth y cyngor lleol os ydyn nhw'n symud tŷ.




Gall y cyngor lleol dalu costau i helpu plentyn i aros mewn cysylltiad â'i deulu neu ffrindiau.



**Ymweld (97-98)**




Mae'n rhaid i'r cyngor lleol drefnu i rywun ymweld ag unrhyw blentyn y maen nhw'n edrych ar ei ôl.




Bydd **rheoliadau** am hyn.

**Adolygu (99-102)**



Bydd swyddog adolygu annibynnol gyda phob plentyn. Gwaith y person hwn yw gwrando ar y plentyn a gwirio bod y cyngor lleol yn edrych ar ôl y plentyn yn dda




Bydd **rheoliadau** am hyn.



## 16 i 25 oed (103-118)



Mae'n rhaid i gynghorau lleol wneud eu gorau i **hyrwyddo llesiant** person ifanc hyd yn oed pan fyddan nhw'n stopio edrych ar ôl y person ifanc.

Mae 6 grŵp gwahanol sy'n gallu cael cefnogaeth. Mae hawliau gwahanol gyda phob grŵp.




Grŵp 1

Pobl 16 a 17 oed y mae'r cyngor lleol yn edrych ar eu hôl o hyd




Grŵp 2

Pobl 16 a 17 oed sy'n gadael gofal, os oedd y cyngor lleol yn edrych ar eu hôl ar eu pen-blwydd yn 16 oed.




Grŵp 3 a Grŵp 4

Oedolion ifanc 18-21 oed ac oedolion ifanc 21-25 oed sydd mewn addysg neu hyfforddiant llawn amser.




Grŵp 5

Pobl ifanc 16 i 21 oed yr oedd y cyngor lleol yn edrych ar eu hôl pan oedden nhw'n blant, ac wedyn cawson nhw orchymyn gwarcheidiaeth arbennig.




Grŵp 6

Rhywun 16 i 21 oed nad ydyn nhw'n ffitio i mewn i unrhyw un o'r grwpiau, ond sydd wedi bod i ffwrdd o'u teuluoedd am 3 mis o leiaf pan yn 16 neu'n 17 oed oherwydd:

- Roedd y cyngor lleol yn edrych ar eu hôl.
- Roedden nhw mewn cartref plant preifat.
- Roedden nhw'n byw mewn llety roedd y GIG (NHS) neu'r awdurdod addysg lleol wedi trefnu.
- Roedden nhw gyda gofalwyr maeth preifat.



Mae'n rhaid i bobl ifanc yng Ngrwpiau 1 2, 3 a 4 gael cynghorydd personol, nes iddyn nhw orffen addysg llawn amser o leiaf.




Dylai pobl ifanc yng Ngrwpiau 2, 3 a 4 hefyd gael cynllun sy'n dweud pa gefnogaeth a chyngor sydd angen arnyn nhw.






Mae rheol arbennig i unrhyw bobl ifanc yng Ngrŵp 1 sy'n byw gyda gofalwr maeth y cyngor lleol.

Mae'n rhaid i'r cyngor lleol ofyn i'r person ifanc a'r gofalwr maeth os ydyn nhw am gario ymlaen i fyw gyda'i gilydd ar ôl i'r person ifanc ddod yn 18 oed.

Os ydyn nhw am gario ymlaen i fyw gyda'i gilydd, gallan nhw gael cefnogaeth tan i'r person ifanc ddod yn 21 oed.



Mae'n rhaid i gynghorau lleol wneud yn siŵr bod gyda phawb yng Ngrŵp 2 ddigon o arian i fyw, lle addas i fyw a digon o gefnogaeth.




Mae'n rhaid i gynghorau lleol gefnogi oedolion ifanc yng Ngrŵp 3 trwy:




- helpu gyda chost byw yn agos at eu swydd, neu lle maen nhw'n edrych am swydd.




- helpu gyda chost byw'n agos at addysg neu hyfforddiant.



- rhoi grant tuag at gostau addysg neu hyfforddiant.



- helpu gyda **llesiant** yr oedolyn ifanc.



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol wneud yn siŵr bod gan bobl ifanc yng Nghrŵp 3 sy'n mynd i ffwrdd i'r brifysgol neu'r coleg rywle i fyw yn ystod y gwyliau.




Mae'n rhaid i'r cyngor lleol helpu oedolion ifanc yng Ngrŵp 4 tan iddyn nhw adael addysg neu hyfforddiant.






Bydd angen help gan y cyngor lleol ar rai pobl yng Ngrŵp 5 a Grŵp 6. Gall y cyngor lleol helpu gyda chostau byw, addysg neu hyfforddiant neu gallan nhw roi llety.



Gall cynghorau lleol ofyn i rieni dalu tuag at gost magu eu plentyn. Mae Atodlen 1 yn y Ddeddf yn esbonio'r rheolau hyn.



**Plant sydd mewn llety diogel (119)**



Gall Gweinidogion Cymru wneud rheolau i'r llysoedd am lety diogel.



Mae'n rhaid i'r plentyn gael cynrychiolydd cyfreithiol yn y llys, os ydyn nhw eisiau un.



**Plant sy'n cael llety gan y GIG (NHS) neu Addysg neu ddarparwr gofal preifat am dros 3 mis (120-123)**




Mae'n rhaid i'r GIG (NHS) neu'r awdurdod addysg ddweud wrth y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol beth sy'n digwydd.



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol wneud yn siŵr bod anghenion y plentyn yn cael eu hasesu.



Mae'r darparwr gofal yn torri'r gyfraith os nad yw ef neu hi yn dweud wrth y cyngor lleol am y plentyn neu'n gadael i'r cyngor lleol asesu anghenion y plentyn.



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol drefnu i rywun fynd i weld y plentyn i roi cyngor a help.



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol roi unrhyw wasanaethau sydd angen ar y plentyn. Mae hyn yn cynnwys help i gadw mewn cysylltiad â'i deulu.



**Gadael Cymru a Lloegr (124)**



Mae'n rhaid i'r llys roi caniatâd cyn i gyngor lleol adael i blentyn maen nhw'n gofalu amdano fyw y tu allan i Loegr a Chymru.



**Marwolaeth plentyn (125)**




Os yw plentyn yn marw pan fydd y cyngor lleol yn edrych ar ei ôl, mae'n rhaid i'r cyngor lleol:



- ddweud wrth Weinidogion Cymru.



- dweud wrth rieni'r plentyn ac unrhyw un â chyfrifoldeb rhiant.




Mae'r Ddeddf yn dweud wrth y cyngor lleol beth arall maen nhw'n gallu gwneud.



# Rhan 7

# Cadw pobl yn ddiogel



**Oedolion mewn perygl (126-129)**


Mae oedolyn yn oedolyn mewn perygl os:



- maen nhw'n cael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, neu os oes perygl efallai y bydd hynny'n digwydd.



- mae anghenion gofal a chefnogaeth gyda nhw.



- nid ydyn nhw'n gallu cadw'u hunain yn ddiogel o gam-drin neu esgeulustod.




Os yw'r cyngor lleol yn credu bod rhywun yn oedolyn mewn perygl, mae'n rhaid iddyn nhw:



- gael gwybod mwy am fywyd y person.




- penderfynu a oes angen gwneud rhywbeth.



- penderfynu pwy ddylai wneud rhywbeth a beth ddylen nhw wneud.



Os yw rhywun yn byw yn yr ardal ac mewn perygl, gall y cyngor lleol ofyn i Ustus Heddwch am **orchymyn diogelu a chefnogi oedolyn**. Mae hwn yn orchymyn newydd.

Mae'r gorchymyn yn golygu y gall y cyngor lleol:



- fynd i mewn i adeilad gyda swyddog yr heddlu i weld y person,
- siarad yn breifat gyda'r person,




- gwirio a yw'r person yn gwneud ei ddewisiadau ei hunan,
- gwirio a yw'r person yn oedolyn mewn perygl,
- penderfynu beth i'w wneud nesaf.




Os bydd **partner perthnasol** yn amau bod oedolyn mewn perygl, mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrth y cyngor lleol.




## Plant mewn perygl (130)




Os bydd **partner perthnasol** neu'r tîm troseddu ieuenctid yn meddwl efallai bod plentyn yn blentyn mewn perygl, mae'n rhaid iddyn nhw ddweud wrth y cyngor lleol.

Mae plentyn mewn perygl yn blentyn sydd:




- yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu ei niweidio, neu efallai y byddai hynny'n digwydd yn y dyfodol.

- angen gofal a chefnogaeth.




Mae Adran 47 Deddf Plant 1989 yn dweud beth i'w wneud os yw plentyn mewn perygl.




**Byrddau Diogelu (132-142)**



Bydd Bwrdd Diogelu Annibynnol Cenedlaethol. Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn:




- helpu Byrddau Diogelu lleol,
- adrodd a yw'r system newydd yn gweithio,



- dweud wrth Weinidogion Cymru sut i gadw pobl yn fwy diogel.

Bydd y Bwrdd Cenedlaethol yn anfon adroddiadau i Weinidogion Cymru.




Bydd **rheoliadau** am y Bwrdd Cenedlaethol.




Bydd Byrddau Diogelu lleol.

Mae pob Bwrdd Diogelu yn cynnwys:




- unrhyw gyngor lleol yn yr ardal,
- prif swyddog unrhyw heddlu yn yr ardal,




- unrhyw fwrdd iechyd lleol yn yr ardal,
- unrhyw ymddiriedolaeth GIG (NHS) sy'n rhoi gwasanaethau yn yr ardal,
- Yr Ysgrifennydd Gwladol,
- y gwasanaeth prawf.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Bydd Gweinidogion Cymru yn dweud pwy fydd yn arwain y Bwrdd Diogelu.




Mae'n rhaid i Fyrddau Diogelu Plant:



- ddiogelu plant rhag cam-drin, esgeulustod a niwed, nawr ac yn y dyfodol.



- stopio plant rhag dod mewn perygl o gam-drin, esgeulustod a niwed.




Mae’n rhaid i Fyrddau Diogelu Oedolion:




- ddiogelu oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth rhag cam-drin neu esgeulustod, nawr ac yn y dyfodol.



- stopio oedolion sydd angen gofal a chefnogaeth rhag bod mewn perygl o gam-drin neu esgeulustod.



Mae’n rhaid i’r Byrddau Diogelu wneud yn siŵr bod pawb yn gweithio gyda’i gilydd.



Gall y Byrddau Diogelu weithio gyda’i gilydd.



Bob blwyddyn mae’n rhaid i’r Byrddau Diogelu ysgrifennu cynllun yn dweud beth fyddan nhw’n ei wneud. Mae’n rhaid iddyn nhw hefyd ysgrifennu adroddiad yn dweud beth wnaethon nhw y llynedd.



Gall pob Bwrdd Diogelu dalu tuag at gost rhedeg y Bwrdd Diogelu.



Mae’n rhaid i Fyrddau Diogelu weithio gyda’r Bwrdd Cenedlaethol. Mae’n rhaid iddyn nhw roi unrhyw wybodaeth y mae’r Bwrdd Cenedlaethol yn gofyn amdani i’r Bwrdd.



# Rhan 8
# Gwasanaethau Cymdeithasol



Mae'n rhaid i bob cyngor lleol gael Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.




Bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud rheolau am bwy sy'n gallu bod yn Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.




Gall cynghorau lleol rannu Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.




Mae'n rhaid i'r cyngor lleol wneud yn siŵr bod digon o staff gyda'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i wneud popeth mae'r gyfraith yn dweud mae'n rhaid iddyn nhw wneud.




**Codau (145-149)**

Cod yw set o reolau am wneud beth mae'n dweud yn y Ddeddf.




Mae'n rhaid i Weinidogion Cymru siarad gyda phobl am beth i'w ysgrifennu yn y cod. Yna byddan nhw'n gofyn i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gytuno i'r cod.




Gall cynghorau lleol ysgrifennu polisi yn dweud y byddan nhw'n gwneud rhywbeth sy'n wahanol i'r cod. Mae'n rhaid iddyn nhw ysgrifennu:

- beth yw'r polisi.
- pam maen nhw'n gwneud rhywbeth gwahanol i'r cod.
- cyhoeddi'r polisi.
- anfon copi i Weinidogion Cymru.




Os yw Gweinidogion Cymru yn meddwl nad yw polisi’r cyngor lleol yn ddigon da, gall Gweinidogion Cymru ddweud wrth y cyngor lleol i wneud beth mae’r cod yn dweud.



**Pan fydd pethau’n mynd yn anghywir (150-161)**



Gall Gweinidogion Cymru wneud rhywbeth os:




- nad yw’r cyngor lleol yn gwneud beth mae’r gyfraith yn dweud wrthyn nhw am wneud.

- mae’r cyngor lleol yn gwneud pethau afresymol.




- mae’r gwasanaethau cymdeithasol yn gwneud gwaith gwael.




Yn gyntaf, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru roi hysbysiad o rybudd.



O fewn 3 mis, mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ddweud wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru beth mae'r cyngor lleol wedi gwneud am yr hysbysiad o rybudd.



Os na fydd y broblem yn cael ei setlo, gall Gweinidogion Cymru wneud rhywbeth.






Mae'n rhaid i'r cyngor lleol weithio gyda Gweinidogion Cymru ac unrhyw un sy'n cael ei benodi gan Weinidogion Cymru. Mae'n rhaid iddyn nhw eu gadael i mewn i adeiladau'r cyngor lleol a gadael iddyn nhw weld gwybodaeth y cyngor lleol.



# Rhan 9

# Gweithio gyda'n gilydd

**Gweithio gydag eraill (162-163)**



Mae'n rhaid i'r cyngor lleol drefnu gweithio gyda:

- eu **partneriaid perthnasol.**
- pobl a sefydliadau eraill sy'n helpu pobl.



Mae'n rhaid i'r **partneriaid perthnasol** helpu'r cyngor lleol.

Mae'n rhaid i'r cyngor lleol hefyd ei wneud yn hawdd i wahanol bobl yn y cyngor lleol weithio gyda'i gilydd.

Dyma'r pethau gall y cyngor lleol a **phartneriaid perthnasol** ei wneud:





- rhannu staff, eiddo a gwasanaethau.
- rhoi arian mewn cronfa sy'n cael ei rhannu. Mae hyn yn golygu bod gwahanol bartneriaid yn rhoi arian i mewn, a gall gwahanol bartneriaid dynnu arian allan.
- rhannu gwybodaeth.



**Pwy sy'n gorfod helpu? (164)**

Gall cyngor lleol ofyn i unrhyw un o'r rhain am help:




- **partner perthnasol**.
- unrhyw sefydliad GIG (NHS) neu gyngor lleol.
- unrhyw dîm troseddu ieuenctid.



Mae’n rhaid iddyn nhw helpu oni bai y byddai helpu’n stopio nhw rhag gwneud eu gwaith eu hunain yn iawn.



Mae’n rhaid i unrhyw un sy’n penderfynu peidio helpu ddweud pam mewn llythyr.




**Gwneud i ofal a chefnogaeth weithio’n dda gyda gofal iechyd (165)**



Mae’n rhaid i bob cyngor lleol wneud newidiadau fel bod gofal a chefnogaeth yn ffitio’n dda gyda gofal iechyd.




**Partneriaethau (166-169)**




Gall Gweinidogion Cymru wneud **rheoliadau** i ddweud wrth y sefydliadau hyn i weithio fel partneriaid:

- 2 neu fwy o gynghorau lleol.
- 1 neu fwy o gynghorau lleol ac 1 neu fwy o fyrddau iechyd lleol.




Bydd y bwrdd iechyd lleol a'r cyngor lleol yn gyfrifol o hyd am y pethau maen nhw'n eu gwneud.



**Gwasanaethau mabwysiadu (170)**




Gall Gweinidogion Cymru ddweud wrth gynghorau lleol i rannu gwasanaethau mabwysiadu.




# Rhan 10

# Cwynion



## Pennod 1 (173-178)

## Cwyno am wasanaethau cymdeithasol




Bydd **rheoliadau** am gwynion am wasanaethau cymdeithasol, gwasanaethau'r cyngor lleol a gwasanaethau sy'n cael eu rhoi ar ran y cyngor lleol.

Gall y **rheoliadau** ddweud wrth gynghorau lleol i:



- helpu pobl sydd eisiau gwneud cwyn.




- dweud wrth bobl am yr help y gallan nhw ei gael i wneud cwyn.




Mae'n rhaid i bob cyngor lleol gael rheolau am gwynion am:



- y cyngor lleol yn edrych ar ôl pobl.



- mabwysiadu.




- gwarcheidiaethau arbennig.



Mae'n rhaid i un person o leiaf sydd ddim yn rhan o'r cyngor lleol edrych ar bob cwyn.




**Pennod 2 (179-180)**

**Cwyno am ofal cymdeithasol preifat**

Nawr, dim ond cwynion am gynghorau lleol, y GIG (NHS) a'r gwasanaethau y maen nhw'n comisiynu mae'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus yn gallu edrych arnyn nhw.



Mae'r Ddeddf hon yn dweud gall yr Ombwdsmon edrych ar gartrefi gofal, gofal cartref neu wasanaethau diwedd bywyd preifat hefyd.



Bydd pobl yn gallu cael help i wneud cwyn o wasanaeth eiriolaeth annibynnol.



## Pennod 3 (181-183)

## Help i roi barn am ofal a chefnogaeth



Gall Gweinidogion Cymru wneud **rheoliadau** sy'n dweud wrth gyngor lleol i drefnu gwasanaethau eiriolaeth i bobl sydd angen gofal a chefnogaeth.




Gall fod **rheoliadau** am:

- pryd mae'n rhaid i'r cyngor lleol roi gwasanaethau eiriolaeth.
- pwy sy'n gallu rhoi gwasanaethau eiriolaeth.




Mae'n rhaid i unrhyw un sy'n rhedeg cartref gofal ddweud wrth bobl am gwasanaethau eiriolaeth.



# Rhan 11

# Darnau ychwanegol




**Cael gwybod pethau (184)**


Gall Gweinidogion Cymru wneud ymchwil, neu fod yn rhan o ymchwil ar unrhyw beth am y Ddeddf hon.




Gall cynghorau lleol a byrddau iechyd lleol wneud ymchwil, neu fod yn rhan o ymchwil ar unrhyw beth o dan eu rheolaeth yn y Ddeddf hon.





Gall Gweinidogion Cymru ofyn i sefydliadau am wybodaeth am beth maen nhw'n gwneud.




**Bod yn y carchar, carchar ieuenctid neu lety mechnïaeth (185-188)**



Os yw oedolyn yn y carchar, carchar ieuenctid neu lety mechnïaeth, nid yw'r cyngor lleol yn gallu cael gorchymyn diogelu a chefnogaeth oedolyn iddyn nhw.




Os yw rhywun yn y carchar, carchar ieuenctid neu lety mechnïaeth:



- nid ydyn nhw'n gallu bod yn ofalwr.



- nid ydyn nhw'n gallu cael Taliadau Uniongyrchol.



- nid ydyn nhw'n gallu dewis lle maen nhw'n byw.



- nid oes rhaid i'r cyngor lleol geisio diogelu eu heiddo.



- nid ydyn nhw'n gallu cael help o dan Ran 6 y Ddeddf hon.




**Pan fydd darparwyr gwasanaeth yn cau (189-191)**




Weithiau mae cartrefi gofal neu wasanaethau eraill yn cau oherwydd bod y busnes neu'r elusen wedi methu.




Os yw hyn yn digwydd yng Nghymru, mae'n rhaid i'r cyngor lleol gwrdd ag anghenion pobl am ofal a chefnogaeth. Mae'n rhaid iddyn nhw wneud hyn hyd yn oes os yw'r person fel arfer yn byw mewn ardal cyngor lleol gwahanol.




## Cael costau yn ôl gan gyngor lleol arall (193-195)




Fel arfer y cyngor lleol lle mae rhywun yn **preswylio fel arfer** yw'r un sy'n talu am ei anghenion gofal a chefnogaeth. Weithiau mae cyngor arall yn talu ac yn cael yr arian yn ôl gan gyngor lleol y person.




Dylai pobl gael y gofal a'r gefnogaeth sydd angen arnyn nhw, hyd yn oed os nad yw'r cynghorau lleol yn gallu cytuno pwy ddylai dalu.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Os nad yw'r cynghorau lleol yn gallu cytuno pwy ddylai dalu, yna bydd Gweinidogion Cymru yn penderfynu.